Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gymunedau Cymraeg

**Rhagor o wybodaeth**
Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Is-adran y Gymraeg
Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays 2
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 0300 0604400
e-bost: unedygymraeg@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**
Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn unig yn http://wales.gov.uk/topics/welshlanguage/publications/response-to-task-and-finish-group-report-on-welsh-speaking-communities/?lang=cy

© Hawlfraint y Goron Mawrth 2014
**WG21636**

**Cyflwyniad**

Yn dilyn dadl ar Strategaeth y Gymraeg *Iaith fyw: iaith byw* yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad Cenedlaethol ar y 12 Mawrth 2012, penderfynwyd bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru "Yn galw ar y Llywodraeth i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i gynllunio ar gyfer cynyddu nifer y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn brif iaith".

O ganlyniad, yng nghyfarfod cyntaf Cyngor Partneriaeth y Gymraeg, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymunedau Cymraeg dan gadeiryddiaeth Dr Rhodri Llwyd Morgan. Cyhoeddwyd yr Adroddiad a'r Cynllun Gwaith arfaethedig ar 4 Rhagfyr. Mae'n adlewyrchu'r dystiolaeth eang a ystyriwyd, yn ogystal â chynnig Cynllun Gwaith yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Grŵp. Rydym yn croesawu'r adroddiad yma, sy'n gwneud nifer o argymhellion pwysig, ac yn diolch i'r Grŵp am eu gwaith.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi ein hymateb i argymhellion yr adroddiad. Rhaid ei hystyried yng nghyd-destun cyfres o adolygiadau eraill a gomisiynwyd dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae adroddiad un o'r adolygiadau hynny – Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gymraeg a Datblygu Economaidd – yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd.

Nodir isod ein hymateb i'r saith argymhelliad.

**Argymhelliad 1: Hybu datblygiad Bangor, Aberystwyth a Chaerfyrddin fel dinas-ranbarthau**

- *Llywodraeth Cymru i sefydlu grŵp gweithredu a fydd yn gweithio i lunio strategaeth a gweithredu cynllun datblygu newydd ar gyfer ardaloedd Bangor, Caerfyrddin ac Aberystwyth a fydd yn asio adfywiad economaidd a gwelliannau seilwaith gyda thwf ieithyddol.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Rydym yn gwrthod yr argymhelliad yn ei ffurf bresennol, ond yn derbyn geiriad diwygiedig sy'n hepgor 'dinas-ranbarthau'. Rydym hefyd yn derbyn y pwynt gweithredu.

Mae angen gwahaniaethu'n glir rhwng yr argymhelliad hwn a'r dull sy'n cael ei ddefnyddio i ddatblygu Dinas-Ranbarthau yn Ne-ddwyrain Cymru a Bae Abertawe, sydd yn ffrwyth ystyriaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddinas-Ranbarthau o'r materion a'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Grŵp hwnnw. Mae i Ddinas-Ranbarth ystyr penodol iawn. Dylid nodi fod Caerfyrddin eisoes yn rhan o Ddinas-Ranbarth Bae Abertawe.

Mae twf economaidd a chyfleoedd gwaith yn ystyriaethau pwysig fel rhan o ymdrechion ehangach i gefnogi'r Gymraeg fel iaith gymunedol yn yr ardaloedd yn y Gorllewin a'r Gogledd-orllewin lle mae canrannau uwch o bobl yn ei siarad.

Cytunwn gyda'r egwyddor fod angen ystyried dulliau i gydlynu cynllunio ieithyddol gyda gweithgaredd sy'n cefnogi twf economaidd, ac i sicrhau fod ein dull o gefnogi twf a swyddi ar draws Cymru yn cydnabod natur ieithyddol cymunedau lle mae canrannau uwch o siaradwyr Gymraeg.

Gan hynny, cytunwn fod cynnal a thyfu'r defnydd o'r iaith yn economi'r prif drefi prifysgol sy'n gwasanaethu cymunedau'r Gorllewin yn agwedd allweddol o ymdrechion i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ardaloedd hynny.

Bydd ein hymateb i adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gymraeg a Datblygu Economaidd – sy'n destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd – yn nodi sut y byddwn yn mynd ati i roi hyn ar waith.

**Argymhelliad 2: Gwella effaith polisïau'r Llywodraeth ar y Gymraeg gan ddefnyddio Asesiadau Effaith Ieithyddol trwy NCT 20 a chanllawiau perthnasol eraill er mwyn gallu hyrwyddo cynllunio rhanbarthol deinamig a chadarnhaol sydd hefyd yn llesol o safbwynt y Gymraeg.**

- *Llywodraeth Cymru i gyhoeddi NCT 20 ac arweiniad clir ar Asesu Effaith Ieithyddol mewn modd cyfannol ac ar gyfer ceisiadau unigol perthnasol*
- *Llywodraeth Cymru, yr Arolygiaeth Gynllunio ac awdurdodau lleol i sicrhau datblygiad safonol a defnydd cyson o Asesiadau Effaith Ieithyddol*
- *Llywodraeth Cymru i ychwanegu "cefnogi'r Gymraeg a gweithredu'n ddwyieithog" fel rhan o'r Fframwaith Cyfrifoldeb Corfforaethol Cymdeithasol*
- *Llywodraeth Cymru i secondio timoedd profiadol i brif-ffrydio'r Gymraeg fel elfen amlwg o'i phrif strategaethau datblygu economaidd*
- *Comisiynu ymchwil i ystyried cydberthynas materion cyfreithiol, polisi a gweithredol ym meysydd cynllunio, tai, datblygiad economaidd a'r iaith Gymraeg.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Mae gwaith eisoes yn digwydd i ddatblygu dull o asesu effaith ieithyddol ein polisïau ar draws pob maes polisi drwy gyfrwng ein prosiect gwella, sydd â'r nod o sicrhau bod y Llywodraeth mewn sefyllfa i gydymffurfio â'r safonau llunio polisi o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 maes o law.

Yn y maes cynllunio, rydym eisoes wedi cyhoeddi NCT 20 newydd, ac mae gwaith yn digwydd ar hyn o bryd i ddatblygu canllawiau manwl i awdurdodau cynllunio. Bydd y rhain yn cynghori awdurdodau cynllunio sy'n paratoi neu'n adolygu Cynllun Datblygu lleol ar sut i asesu effaith ieithyddol fel rhan o'r arfarniadau cynaliadwyedd.

Yn unol â'n hymateb i argymhelliad 1, bydd ein hymateb i adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gymraeg a Datblygu Economaidd – sy'n destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd – yn rhoi sylfaen i ni ynghylch sut y byddwn yn mynd ati i roi elfennau eraill argymhelliad 2 ar waith.

**Argymhelliad 3: Cysoni darpariaeth addysg 3-14 oed ledled Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin fel y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.**

- *Llywodraeth Cymru i ddefnyddio pwerau'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 fel sail i newidiadau perthnasol ym Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gâr.*
- *Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru i lunio papur safbwynt ar gyfer ehangu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ym Mangor, Aberystwyth a Chaerfyrddin.*
- *Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ymchwilio i ymarferoldeb ehangu model darpariaeth hwyrddyfodiaid Gwynedd ledled ardaloedd y canrannau uwch.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyniwn yr argymhelliad mewn egwyddor er mai mater i awdurdodau lleol yw gweithredu'r camau hyn. Mae'r gofyniad ar bob awdurdod addysg i lunio a chyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn cynnig cyfle iddynt ystyried sut mae cynyddu nifer disgyblion saith a phedair ar ddeg oed sy'n derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rheidrwydd hefyd iddynt gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n sefyll arholiadau allanol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu Grant y Gymraeg mewn Addysg i bob consortiwm addysg a gellid defnyddio'r grant hwn at ddibenion cefnogi hwyrddyfodiaid. Mae'n rhaid i ddefnydd y grant adlewyrchu bwriadau pob awdurdod lleol a amlinellir yn eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg o ran darpariaeth i hwyrddyfodiaid.

**Argymhelliad 4: (O wella mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg) sicrhau y crëir ethos a rhaglenni hybu defnydd cymdeithasol ac anffurfiol o'r Gymraeg mewn cydweithrediad â'r ysgolion a'u cymunedau.**

- *Ymestyn a datblygu model Siarter Gwynedd a'i weithredu ym mhob ysgol gynradd, gan sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth awdurdodau lleol Môn, Ceredigion a Sir Gâr i'r cynllun.*
- *Annog awdurdodau lleol ac ysgolion perthnasol yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Powys, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro i fabwysiadu model Siarter Gwynedd.*
- *Ymestyn a datblygu model Prosiect Cefnogi Iaith ym mhob ysgol uwchradd ym Môn, Ceredigion a Sir Gâr gan sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth pob awdurdod lleol i'r cynllun.*
- *Sefydlu cynllun peilot i benodi swyddogion cymunedol ar gyfer pontio rhwng yr ysgol a'r gymuned.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyniwn yr argymhelliad. Mae hwn yn fater pwysig sy'n haeddu sylw penodol a chynllunio systemataidd. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol, yn eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, amlinellu sut maent yn cefnogi ysgolion i gynllunio ar gyfer defnydd iaith anffurfiol. Yn ogystal, gall ysgolion dderbyn arweiniad i'r perwyl hwn gan y Consortia Addysg wrth ddefnyddio eu Grant y Gymraeg mewn Addysg. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio canllaw penodol ar y mater hwn ac wedi comisiynu hyfforddiant ar gyfer y consortia ac ysgolion ar sut i ddefnyddio'r canllaw. Rhoddir sylw i'r cysylltiad rhwng defnydd iaith anffurfiol a datblygu llythrennedd yn y Gymraeg. O ganlyniad, bydd egwyddorion cefnogi defnydd iaith anffurfiol yn cael eu lledaenu i bob ysgol uwchradd. Mae Siarter Gwynedd yn cael sylw yn y canllaw ac mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at weithgor Gwynedd sy'n edrych ar ddatblygu adnodd tebyg i ysgolion uwchradd.

Llunnir twlcit ar gyfer pontio defnydd iaith rhwng yr ysgol a'r gymuned drwy Brosiect PCAI a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Caiff y twlcit ei ddefnyddio gan asiantaethau sy'n cefnogi pobl ifanc yn y gymuned a chredir, felly, nad oes angen swyddogion cymunedol penodol gan fod swyddogion y Mentrau, yr Urdd a rhai gwasanaethau ieuenctid yn cyflawni'r rôl honno.

**Argymhelliad 5: Parhau i annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chymdeithasu yn yr iaith Gymraeg trwy gefnogi mudiadau a chymdeithasau a thrwy sbarduno mentrau newydd.**

- *Parhau a dwysau'r gwaith o hybu'r arfer o drosglwyddo'r iaith yn y teulu trwy roi sylw ychwanegol i ardaloedd perthnasol.*
- *Hybu mynediad at ofal plant cyfrwng Cymraeg fforddiadwy yn yr ardaloedd perthnasol er mwyn gwneud magu plant a gweithio ar yr un pryd yn opsiwn deniadol i deuluoedd ifanc.*
- *Datblygu ac ehangu'r defnydd o'r adnodd 'Gweithredu'n Lleol' sy'n cynnig fframwaith addas ar gyfer ysgogi cynllunio iaith micro.*
- *Sefydlu rhwydwaith Cefnogi Cymdogaethau Cymraeg ar gyfer bod yn fforwm (wyneb yn wyneb ac ar lein) ar gyfer:*
  *- rhannu arfer dda o ardal i ardal*
  *- cynllunio a datblygu syniadau newydd*
  *- trefnu hyfforddiant perthnasol ar faterion yn ymwneud â datblygiad y Gymraeg o fewn cymdogaethau Cymraeg*
  *- llywio datblygiad 'Gweithredu'n Lleol'*
  *- adrodd i'r Llywodraeth yn flynyddol ar faterion allweddol*
- *Sefydlu Cronfa Cymdogaethau Cymraeg i alluogi grwpiau a chymdeithasau i ymgeisio am arian i sbarduno gweithgareddau ar y lefel leol.*
- *Llywodraeth Cymru i gefnogi'r Mentrau Iaith i ddarparu cymorth a chyngor i grwpiau cymunedol.*
- *Cefnogi darpariaeth Cymraeg i Oedolion effeithiol sy'n cwrdd ag anghenion unigolion, teuluoedd a chyflogwyr gan weithredu ar argymhellion Adroddiad Codi golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion 2013.*

- *Datblygu a gwella o ran gweithgareddau pontio a chymathu sy'n cynyddu ymlyniad a defnydd cymdeithasol dysgwyr o'r Gymraeg.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Mae hybu'r arfer o drosglwyddo'r iaith yn y teulu yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth ar draws Cymru. Cytunwn hefyd gyda'r angen i roi sylw ychwanegol i rai ardaloedd perthnasol yn y cymunedau Cymraeg o ystyried pwysigrwydd y cymunedau hynny i ddyfodol yr iaith ym mhob rhan o Gymru.

O ran hybu mynediad at ofal plant cyfrwng Cymraeg fforddiadwy yn ardaloedd y canrannau uwch, mae ein cynllun, Adeiladu Dyfodol Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn nodi y byddwn yn rhoi'r camau gweithredu canlynol ar waith:

- gweithio gyda Mudiad Meithrin a darparwyr eraill drwy amrywiaeth o grantiau er mwyn cynyddu ansawdd a swm y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg fel bod gan rieni ddewis o ran iaith gyntaf eu lleoliad gofal plant a'r addysg a gaiff eu plant
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer addysg a gofal plant cynnar cyfrwng Cymraeg i blant a theuluoedd sydd am gael eu haddysg yn Gymraeg, a sicrhau darpariaeth o'r fath; byddwn yn monitro llwyddiant wrth gyflawni hyn drwy'r asesiadau o ddigonolrwydd gofal plant, cynlluniau gweithredu gofal plant a Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Cytunwn fod yr adnodd 'Gweithredu'n Lleol' yn werthfawr i gymdogaethau allu cynnal asesiadau a chynllunio'n ieithyddol ar lefel lleol iawn. Rydym eisoes wedi comisiynu rhagor o gopïau o'r adnodd, a byddwn yn mynd ati i'w hyrwyddo mewn cydweithrediad â'r mentrau iaith.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweld rôl bwysig i'r mentrau iaith yn yr ardaloedd canrannau uwch, a byddwn yn parhau i gefnogi ymdrechion y mentrau yn yr ardaloedd hynny i ysgogi gweithredu cadarnhaol yn lleol er lles yr iaith. Gwnawn hynny yng nghyd-destun ein hymateb i Adolygiad Prifysgol Caerdydd o waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hyrwyddo'r Gymraeg Aman-Tawe. Wrth i ni weithredu mewn ymateb i'r Adolygiad hwnnw drwy addasu ein modd o ariannu'r mentrau iaith, rhoddwn ystyriaeth i'r angen am gronfa benodol ar gyfer cefnogi cymdogaethau Cymraeg. Yn yr un modd, rhown hefyd ystyriaeth i'r angen am rwydwaith i gefnogi'r cymdogaethau Cymraeg.

O ran Cymraeg i Oedolion, mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau eisoes wedi cyhoeddi ei fod yn derbyn argymhellion yr adolygiad diweddar, sydd yn cynnwys argymhellion penodol i ymgyrraedd at gynulleidfaoedd eang, gan gynnwys teuluoedd a chyflogwyr.

**Argymhelliad 6: Cytuno ar dargedau i ehangu'r gweithlu dwyieithog a gweithredu mewnol dwyieithog gydag asiantaethau perthnasol oddi mewn i gwmpas Safonau'r Iaith Gymraeg**

- *Awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd a sefydliadau addysg bellach ac uwch sy'n gwasanaethu Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin i ymrwymo i'r gofynion newydd a ddaw yn sgil y Safonau arfaethedig.*
- *Llywodraeth Cymru ac asiantaethau perthnasol i bennu targedau recriwtio a datblygu gweithlu i gynyddu'n ystyrlon nifer y gweithwyr dwyieithog.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Mae ein Strategaeth, Iaith fyw: iaith byw, yn cydnabod pwysigrwydd y gweithle ar gyfer cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r safonau drafft sydd yn destun ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg yn cynnwys safonau ynghylch y gweithle. Yn amodol ar ymchwiliad y Comisiynydd, y broses ddeddfwriaethol a fydd yn dilyn hynny i wneud rheoliadau a fydd yn gwneud y safonau yn benodol-gymwys i awdurdodau lleol, a'r hysbysiadau cydymffurfio y bydd y Comisiynydd yn eu gosod ar y cynghorau, mater i'r cynghorau fydd cydymffurfio â'r safonau hynny.

O'n rhan ni fel Llywodraeth, eto yn amodol ar y broses a amlinellir isod, byddwn yn cydymffurfio â'r safonau a gaiff eu gosod arnom maes o law. Os bydd cydymffurfio â'r safonau yn galw am gynyddu nifer y gweithwyr sy'n gallu gweinyddu yn y ddwy iaith, byddwn yn cymryd camau ystyrlon i wneud hynny.

**Argymhelliad 7: Ehangu peilot Cynllun Aman Tawe i ardaloedd eraill sydd wedi profi shifft ieithyddol amlwg yn y blynyddoedd diweddar a chefnogi datblygiadau pellach yng ngoleuni Adolygiad Prifysgol Caerdydd.**

- *Llywodraeth Cymru i ddarparu adnoddau digonol i sefydlu hyd at 6 o Gynlluniau Hybu'r Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol arbennig.*
- *Awdurdodau lleol i weithio mewn partneriaeth â'r Mentrau Iaith a phartneriaid allweddol eraill i lunio a gweithredu strategaeth hirdymor fydd â'r nod o sicrhau twf ieithyddol ar sail anghenion lleol.*
- *Adolygiad o'r datblygiadau i'w gyflawni bob tair blynedd.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Mae'r argymhelliad hwn a'r camau gweithredu perthnasol yn cyd-fynd ag ysbryd argymhellion Prifysgol Caerdydd. Rydym wedi ymateb i'r argymhellion hynny mewn dogfen ar wahân.